

Dyddiad cyhoeddi: 16 Mehefin 2021

Cais Rhyddid Gwybodaeth

Rydym ni'n ysgrifennu atoch i ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a wnaethoch. Mae eich cais wedi cael ei ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n polisi mynediad at wybodaeth.

Atebion i'ch Cwestiynau

Cais Rhyddid Gwybodaeth am y wybodaeth ganlynol mewn perthynas â Rheilffordd Dyffryn Conwy (Cyffordd Llandudno i Flaenau Ffestiniog):

(a) Cyfanswm y gwariant a wariwyd ar wasanaethau bws yn lle trenau ym mhob un o'r tair blwyddyn ariannol canlynol: 2018/19; 2019/20; 2020/21

Er mwyn egluro pam nad yw rhywfaint o'r wybodaeth y gofynnwyd amdani ar gael, yn gyntaf mae angen egluro'r berthynas rhwng Trenau Arriva Cymru, KeolisAmey (sy'n masnachu fel Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru), Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru.

Trenau Arriva Cymru oedd yn rhedeg masnachfaint Cymru a'r Gororau rhwng mis Rhagfyr 2003 a mis Hydref 2018, pan ddyfarnwyd y fasnachfaint i KeolisAmey Operations Ltd (yn masnachu fel Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru). Sefydlwyd Cytundeb Grant rhwng KeolisAmey a Gweinidogion Cymru, yn amlinellu eu rhwymedigaethau fel gweithredwyr y fasnachfaint. Mae Trafnidiaeth Cymru yn is-gwmni nid-er-elw sydd ym mherchnogaeth Iwyr Llywodraeth Cymru, a chyn mis Chwefror 2021 rhan allweddol o'n cylch gwaith oedd rheoli'r Cytundeb Grant gyda KeolisAmey ar ran Gweinidogion Cymru.

Yn benodol, mae Trafnidiaeth Cymru yn sefydliad sector cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth; ond fel cwmni sector preifat, nid oedd KeolisAmey. Fodd bynnag, pan oedd KeolisAmey yn cadw gwybodaeth ar ran Trafnidiaeth Cymru mewn perthynas â chyflawni ei rwymedigaethau o dan y Cytundeb Grant, cafodd yr wybodaeth honno ei rhannu â Trafnidiaeth Cymru er mwyn ateb cais a wnaed o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

Nid KeolisAmey yw gweithredwr masnachfaint Cymru a'r Gororau mwyach. Ar 7 Chwefror 2021, rhoddwyd i weithredwr pan fetha popeth arall (OLR) Llywodraeth Cymru, Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyf (un o is-gwmnïau Trafnidiaeth Cymru) gyfrifoldeb am reoli'r fasnachfaint o ddydd i ddydd yn dilyn cwmp mewn refeniw a gostyngiad sylweddol yn nifer y teithwyr o ganlyniad i bandemig COVID-19.

Nid yw data cyn mis Hydref 2018, pan oedd Trenau Arriva Cymru yn gweithredu masnachfaint Cymru a'r Gororau, ar gael i TrC. O'r herwydd, dim ond o fis Hydref 2018 ymlaen y gallwn ddarparu data.

Nid yw data sy'n ymwneud â mis Hydref 2018 – Ionawr 2021 yn destun Rhyddid Gwybodaeth gan nad oedd y gwasanaeth bws yn lle trenau yn rhwymedigaeth benodol o dan y Cytundeb Grant. Mae hyn yn golygu nad yw'r wybodaeth sy'n cael ei dal gan Keolis Amey Wales Cymru Ltd mewn perthynas â'r gwasanaeth bysiau yn lle trenau yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cadw gwybodaeth ar ran Trafnidiaeth Cymru, gan fod y gwasanaeth yn cael ei weithredu gan KeolisAmey Wales Cymru Ltd fel cwmni preifat. O'r herwydd, nid yw Trafnidiaeth Cymru yn gallu darparu'r wybodaeth hon dan y

Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Os ydych chi'n dymuno cael y wybodaeth hon, rydym yn argymhell eich bod yn cysylltu â Keolis UK, er y dylid nodi nad ydynt yn rhwym wrth y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth fel cwmni yn y sector preifat.

Mae cyfanswm y gwariant ar wasanaethau bws yn lle trenau o 7 Chwefror 2021 hyd yma yn £29,233.75.

(b) Cyfanswm y dyddiau y defnyddiwyd gwasanaethau bws yn lle trenau ym mhob un o'r tair blwyddyn ariannol canlynol: 2018/19; 2019/20; 2020/21

2018/19: Nid yw data sy'n ymwneud â mis Hydref – Rhagfyr 2018 ar gael oherwydd trosglwyddo perchnogaeth masnachfaint o Drenau Arriva Cymru i KeolisAmey. Ar gyfer y cyfnod Ionawr – Ebrill 2019: 15

2019/20: 202

2020/21: 279

Sylwch fod y ffigurau hyn yn berthnasol i bob achos lle defnyddiwyd gwasanaeth bws yn lle trenau, ac nid ydynt o reidrwydd yn dangos bod y gwasanaeth cyfan yn cael ei ganslo a'i amnewid gan fysiau am y diwrnod cyfan.

(c) Nifer cyfartalog y teithwyr dyddiol a ddefnyddiodd Reilffordd Dyffryn Conwy ym mhob un o'r tair blwyddyn ariannol ganlynol: 2018/19; 2019/20; 2020/21.

Gweler y tabl isod. Sylwch fod y data hwn yn adlewyrchu nifer y teithiau gan deithwyr ac nid nifer cyfartalog y teithwyr bob dydd. Nid yw nifer y teithwyr bob dydd yn ddata sydd gennym a byddai'n gofyn i ni wneud tybiaethau ynghylch nifer y teithiau/siwrneiau a wneir gan gwsmer mewn gwahanol segmentau o'r farchnad.

Mae'r ffigurau isod yn dangos siwrneiau teithwyr a ddyrannwyd i Wasanaethau Rheilffyrdd TrC ar Lwybr Llandudno-Blaenau Ffestiniog am y tair blynedd dan sylw.

Blwyddyn RSP	Cyfanswm Teithiau	Nifer y Dyddiau	Cyfartaledd Teithiau Dyddiol
2019	155,774	365	427
2020	130,770	366	357
2021	30,796	365	84

(c) Nifer cyfartalog y y gwasanaethau dyddiol a weithredwyd gan Trafnidiaeth Cymru ar Reilffordd Dyffryn Conwy ym mhob un o'r tair blwyddyn ariannol ganlynol: 2018/19; 2019/20; 2020/21.

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y gwasanaethau a archebwyd bob blwyddyn ar y rheilffordd rhwng Tref Llandudno a Blaenau. Noder, fodd bynnag, y bydd hyn yn cynnwys unrhyw wasanaethau a archebir rhwng tref Llandudno a Chyffordd Llandudno.

Blwyddyn	Cyfanswm y Trenau a Archebwyd
2018/19:	10,210
2019/20:	9,579
2020/21:	9,911

Mae nifer penodol y gwasanaethau sydd wedi'u harchebu i gyrraedd a gadael gorsaf Blaenau i'w gweld yn y tabl isod:

Blwyddyn	Cyfanswm y Trenau a Archebwyd
2018/19:	3,088
2019/20:	1,887
2020/21:	624

Fel y gwelwch, mae pandemig COVID-19 wedi effeithio'n ddifrifol ar y llinell hon.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o ddefnydd i chi.

Yn gywir,

Trafnidiaeth Cymru

Hawliau Apelio

Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y cafodd eich cais ei drin a'ch bod chi'n dymuno gwneud cwyn neu wneud cais am adolygiad o'n penderfyniad, ysgrifennwch at y Pennaeth Rhyddid Gwybodaeth naill ai yn Trafnidiaeth Cymru, 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH neu freedomofinformation@tfw.wales. Rhaid i'ch cais gael ei gyflwyno o fewn 40 diwrnod gwaith i dderbyn y llythyr hwn. Os na fyddwch chi'n fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.

Gallwch chi gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF neu gallwch chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy adran 'Gwneud Cwyn' eu gwefan ar y ddolen hon: <https://ico.org.uk/make-a-complaint/>

Yr adran berthnasol i'w dewis fydd "Gwybodaeth Swyddogol neu Gyhoeddus".